

## Grŵp Datblygu Gofalwyr Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

# Adroddiad Blynyddol 2024/25

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol **Gorllewin Cymru**

**West Wales** Regional Partnership Board

# Tabl Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 01 |
| Blaenoriaeth Un | 05 |
| Blaenoriaeth Dau | 09 |
| Blaenoriaeth Tri | 21 |
| Blaenoriaeth Pedwar | 23 |
| Casgliad | 24 |




# Cyflwyniad

Cafodd yr adroddiad hwn ei baratoi gan Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru (WWCDG) ac mae'n rhoi trosolwg o'r hyn wnaed yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, i gyd-fynd â'r Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol. Mae Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru yn is-grŵp ffurfiol o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, y tri awdurdod lleol sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, yn ogystal â chynrychiolaeth o'r Cyngor ar gyfer Gwasanaethau Gwirfoddol.

# Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol


Ym mis Tachwedd 2020 cyhoeddwyd Strategaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru 2020-2025: Gwella Bywydau Gofalwyr gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru. Roedd y Strategaeth yn sefydlu pedwar maes blaenoriaeth allweddol sy'n cymryd safbwynt tymor hwy ac sy'n gosod y weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Adolygwyd y blaenoriaethau hyn yn 2023, ac ychwanegodd y Grŵp Datblygu Gofalwyr "hyderus" at flaenoriaeth 4. Mae'r pedwar maes blaenoriaeth yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer sut dylai asiantaethau gydweithio i gynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau a fydd yn gwella canlyniadau i ofalwyr di-dâl a'u teuluoedd.




Mae'r blaenoriaethau'n seiliedig ar egwyddor cydraddoldeb a mynediad teg i bawb ac mae ganddynt synergedd clir â'r Strategaeth Gofalwyr Genedlaethol. Y pedair blaenoriaeth ranbarthol yw:

- Gwella'r broses o adnabod gofalwyr yn gynnar a hunan-adnabod ymysg gofalwyr gan gynnwys Gofalwyr Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc.
- Sicrhau bod amrywiaeth o wasanaethau ar gael i gefnogi llesiant gofalwyr o bob oed, yn eu bywyd ochr yn ochr â gofalu.
- Cynorthwyo gofalwyr i gael mynediad i gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
- Cynorthwyo gofalwyr i gael eu cynnwys yn ddigidol ac yn hyderus.

Gall gofalwr fod yn unrhyw un, o unrhyw oed, sy'n darparu gofal a chefnogaeth yn ddi-dâl i berthynas, cyfaill neu gymydog sy'n anabl, sydd â salwch corfforol neu feddyliol, neu sydd wedi'i effeithio gan gamddefnyddio sylweddau. Gofalwyr di-dâl yw'r darparwr gofal unigol mwyaf i bobl ag anghenion cymorth yn ein cymunedau, ac maent yn arbed miliynau o bunnoedd y flwyddyn i'r GIG ac i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.




Dangosir rhai o’r prif gyflawniadau uchod. Bydd gweddill yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau a'r canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn erbyn pob un o'r blaenoriaethau rhanbarthol.

# Blaenoriaeth Un

## Gwella'r broses o adnabod gofalwyr yn gynnar a hunan-adnabod ymysg gofalwyr di-dâl o bob oedran




Mae gan Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru ystod eang o gamau gweithredu i gefnogi adnabod a hunan-adnabod gofalwyr di-dâl o bob oedran yn gynnar. Maent wedi'u hamlinellu isod.

### Buddsoddwyr mewn Gofalwyr

Mae'r cynllun Buddsoddwyr Rhanbarthol mewn Gofalwyr yn cael ei gydlynu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar ran Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru. Mae'r cynllun yn hyrwyddo dull system gyfan a chyfrifoldeb am adnabod gofalwyr di-dâl yn gynnar ac yn sicrhau bod gan staff y wybodaeth i allu cyfeirio gofalwyr yn rhagweithiol i gael cymorth a chefnogaeth ychwanegol yn gynnar. Mae'r Cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr yn galluogi lleoliadau i symud ymlaen drwy dair lefel o ddyfarniadau; efydd, arian ac aur. Mae'r cynllun wedi parhau i ehangu ac mae'n cael ei fabwysiadu gan ystod eang o leoliadau y bydd gofalwyr yn ymweld â nhw, e.e. ysbytai, meddygfeydd teulu, ysgolion, colegau, timau cymunedol, llyfrgelloedd, sefydliadau'r sector gwirfoddol ac ati. Mae hyn yn creu cysondeb ar draws y rhanbarth i ymgorffori ymwybyddiaeth gofalwyr, ond yn bwysicaf oll mae'n ddull "busnes pawb" o wneud i bob cyswllt gyfri.

Mae'r rhai sy'n ymwneud â'r cynllun yn dweud bod ganddynt fwy o hyder i allu adnabod gofalwyr di-dâl yn gynharach a mynd at y gofalwr di-dâl i gael sgwrs. Felly, mae'r prosiect yn bwysig iawn i'r cynnydd a fu mewn adnabod mwy o ofalwyr di-dâl, ac yn hollbwysig, eu hatgyfeirio at wasanaethau sy'n gallu darparu cymorth uniongyrchol i fynd i'r afael â'u problemau neu bryderon, yn ogystal â'u hiechyd a'u llesiant eu hunain. Yn ystod y flwyddyn mae'r tîm Buddsoddwyr mewn Gofalwyr wedi adolygu ac adnewyddu ei safonau Buddsoddwyr mewn Gofalwyr ac wedi symleiddio'r broses gyflwyno ar gyfer pob lleoliad. Elfen graidd o'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr yw galluogi gofalwyr di-dâl i hunan-adnabod a chofrestru fel gofalwr di-dâl gyda'u meddygfa. Dros y flwyddyn ddiwethaf, cafodd cyfanswm o 666 o ofalwyr di-dâl eu cyfeirio at wasanaethau cymorth gofalwyr lleol gan bractisau meddygon teulu.

Mae cyfanswm o 171 o leoliadau yn rhan o'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr ac mae'r ffeithluniau isod yn dangos y mathau o leoliadau sy'n gysylltiedig â'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr a chyfanswm nifer y gwobrau ddyfarnwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cynnydd sylweddol wedi bod mewn gwobrau efydd yn ystod 2024/25.








Enillodd tîm Anhwylderau Bwyta Oedolion y Bwrdd Iechyd eu lefel arian eleni. Dywedon nhw:

> "Roedd yr holl beth yn codi ofn arnon ni i ddechrau, ond fe wnaeth ein helpu ni fel tîm i ddatblygu a chyflawni gwaith sy'n rhoi boddhad i ni, a hynny i grŵp o bobl mae tuedd i anghofio amdanyn nhw weithiau. Cawson ni agoriad llygad yn y sesiynau a'r adborth gan ein gofalwyr di-dâl, ac rydyn ni wedi cael synnwyr o gyflawni yn ogystal â gwell lefel o ddealltwriaeth ac ymarfer i helpu ein cleientiaid a'u teuluoedd."

Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Gofalwyr yn rhan annatod o'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr ac isod ceir ciplun o'r sesiynau hyfforddi a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:



Mae sesiynau hyfforddi yn cael eu cyflwyno a'u teilwra yn ôl anghenion pob lleoliad. Yn ystod Wythnos Gofalwyr 2024, cyflwynwyd sesiwn a oedd yn cynnwys mewnbwn gan sefydliadau'r sector gwirfoddol a oedd yn gallu 'arddangos' eu cefnogaeth i ofalwyr di-dâl. Mae hyn yn helpu mynychwyr i ddeall yr ystod o wasanaethau sydd ar gael i gefnogi gofalwyr di-dâl. Ymhlith yr adborth gan y rhai oedd yno oedd:




## Gweithgareddau codi ymwybyddiaeth

Yn ystod Wythnos Gofalwyr ym mis Mehefin a diwrnod Hawliau Gofalwyr ym mis Tachwedd, cynhaliwyd gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ar draws y tair sir. Roedd gan y Bwrdd Iechyd stondinau gwybodaeth yn y prif ysbytai. Bu cleifion, gofalwyr di-dâl, a staff yn ymweld â'r stondinau ac roedd cyfle i gael sgwrs ragarweiniol un-i-un, a oedd yn cynnwys cyfeirio i wybodaeth berthnasol i ofalwyr. Cafwyd gair gyda 341 o unigolion i gyd. Roedd y wybodaeth allweddol a'r adborth a rannwyd yn y digwyddiadau hyn yn cynnwys pecynnau gofal, rhwystrau sy'n wynebu gofalwyr, yr angen am amrywiaeth o wasanaethau cymorth, ac anawsterau o ran cael mynediad at nyrsys ardal. Mae adborth a gafwyd o'r digwyddiadau hyn yn parhau i lunio ein gwasanaethau ar gyfer gofalwyr di-dâl.

Ar draws y rhanbarth roedd yr Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Ofalwyr hefyd yn trefnu digwyddiadau. Er enghraifft, yn Sir Gaerfyrddin cynhaliwyd gweithdai a gweithgareddau llesiant fel plethu gwiail ar gyfer gofalwyr di-dâl yn ogystal â digwyddiadau galw heibio a sgwrsio mewn llyfrgell leol. Yng Ngheredigion, roedd stondin wybodaeth yn Sioe Aberystwyth a digwyddiad yn Amgueddfa Wlân Cymru. Yn Sir Benfro roedd bore coffi ac aeth cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, a'r Awdurdod Lleol i Sioe Deithiol Cadw'n Dda. Mae'r holl ddigwyddiadau hyn wedi helpu i hyrwyddo pwysigrwydd adnabod gofalwyr di-dâl a'r gwasanaethau sydd ar gael i ofalwyr di-dâl mewn ysbytai ac yn y gymuned.

Enghraifft arall o'r gwaith cynyddu ymwybyddiaeth yn Sir Benfro yw Cardiau Cydnabod Gofalwyr. Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd 844 o gardiau i ofalwyr di-dâl sy'n oedolion a 54 o gardiau i ofalwyr ifanc.




Yn Sir Gaerfyrddin, roedd arian y Gronfa Tai â Gofal ar gael i ofalwyr di-dâl, gan eu hystyried fel partneriaid gofal cyfartal a sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar gyllid i brynu nwyddau i wella iechyd, diogelwch ac addasrwydd yr amgylchedd gofalgar. Roedd y dull hwn yn cefnogi bwriad strategol Cyngor Sir Caerfyrddin i godi proffil gofal di-dâl ac i wella'r broses o adnabod gofalwyr di-dâl ac amgylcheddau gofalu priodol. Roedd 104 o ofalwyr di-dâl wedi cael mynediad i'r gronfa ac wedi elwa arni.

# Blaenoriaeth Dau

## Sicrhau bod amrywiaeth o wasanaethau ar gael i gefnogi llesiant gofalwyr di-dâl o bob oed, yn eu bywyd ochr yn ochr â gofalu

Lluniwyd poster i helpu i hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael i ofalwyr di-dâl o bob oed ym mhob un o dair sir ardal Hywel Dda.




## Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth Gofalwyr

Mae gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth Gofalwyr wedi cael eu comisiynu ar y cyd gan y Bwrdd Iechyd a'r tri Awdurdod Lleol gan sicrhau ymagwedd gydweithredol at gynllunio a darparu gwasanaethau rhwng sefydliadau statudol. Gweler isod drosolwg o'r adrodd am weithgareddau, gan gynnwys cymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Services jointly commissioned by the Health Board and Local Authority:**

Adferiad Recovery - Carmarthenshire Carers Information and Outreach Service

Gofalwyr Ceredigion Carers - Ceredigion Information, Outreach and Young Carers Service

Action for Children – Pembrokeshire Young Carers Service

Carers Trust Crossroads West Wales - Carers Support Pembrokeshire and Carmarthenshire Young Carers services

| Key performance indicators | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|
| Number of new adult carer referrals | 1189 | 2080 |
| Number of adult carers who were supported | 2218 | 2170 |
| Number of new young carers referrals | 261 | 341 |
| Number of young carers who were supported | 1586 | 2019 |

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y gofalwyr sy'n oedolion a'r gofalwyr ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaethau, yn ogystal â chynnydd yn nifer y gofalwyr ifanc sy'n cael eu cefnogi. Arweiniodd newid mewn darparwr gwasanaeth yn ystod y flwyddyn at ostyngiad bach yn nifer y gofalwyr sy'n oedolion sydd wedi cael cymorth, ond mae'r gwaith hwnnw ar gynnydd erbyn hyn.

Mae'r gwasanaethau wedi derbyn adborth cadarnhaol gan ofalwyr di-dâl o bob oedran, gan gynnwys:



# Gwasanaethau Cymorth Rhyddhau o'r Ysbyty i Ofalwyr

Mae'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid awdurdod lleol wedi mabwysiadu dull system gyfan i gefnogi ac ymgysylltu â gofalwyr di-dâl wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion ac i sicrhau bod Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cael eu darparu a bod y Gwasanaeth Cymorth Rhyddhau o'r Ysbyty i Ofalwyr yn cael ei gyllido drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, a oruchwylir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Bu i'r Bwrdd Iechyd gomisiynu'r sector gwirfoddol i gyflogi Swyddogion Gofalwyr sydd â rôl benodol wrth gynorthwyo staff ysbyty a chymunedol i adnabod gofalwyr di-dâl yn gynnar, i'w galluogi i gymryd mwy o ran yn y broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty a darparu gwybodaeth a chymorth.

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Rhyddhau o'r Ysbyty i Ofalwyr yn rhan o gontinwwm ehangach o gymorth i ofalwyr di-dâl ac yn allweddol i gynorthwyo'r broses o ryddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty trwy gefnogi a chynnwys y gofalwr di-dâl yn y broses o ryddhau'r sawl y maent yn gofalu amdano. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu hyfforddiant i staff allu cydnabod ac adnabod gofalwyr di-dâl cyn gynted â phosibl a sicrhau eu bod yn gwybod sut i atgyfeirio gofalwyr di-dâl i'r Swyddogion Gofalwyr yn y prif ysbytai a'r rhai cymunedol. O gymharu â 2023/24, bu cynnydd o 15% yn ystod 2024/25 yn nifer yr atgyfeiriadau a wnaed i'r Swyddogion Gofalwyr a chynnydd o 32% yn nifer y gofalwyr di-dâl mae'r Gwasanaeth yn eu cefnogi. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o allbynnau'r gwasanaeth yn y flwyddyn ariannol hon.

Carmarthenshire Provider -
Carers Trust Crossroads West Wales

Ceredigion Provider -
Gofalwyr Ceredigion Carers

Pembrokeshire Provider -
Adferiad


| | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|
| Number of new referrals | 488 | 560 |
| Numbers of unpaid carers being supported | 718 | 950 |
| Number of staff training sessions | 38 | 40 |
| Number of staff attending training | 197 | 100 |
| Number of drop in sessions | 224 | 207 |
| Number attending the drop in sessions | 1130 | 1560 |
| Number of information packs given | 1185 | 837 |

Mae'r Swyddogion Gofalwyr wedi parhau i addasu eu dull o weithio gyda staff i godi ymwybyddiaeth a gwybodaeth am anghenion gofalwyr di-dâl. Er bod y niferoedd sy'n mynychu'r hyfforddiant wedi gostwng, mae nifer y bobl sy'n mynychu sesiynau galw heibio wedi cynyddu.

Yn yr un modd, mae nifer y pecynnau gwybodaeth a ddosbarthwyd wedi gostwng ond mae'n well gan lawer o ofalwyr di-dâl dderbyn y wybodaeth yn ddigidol neu gael yr adnoddau drwy wefan Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru.

## Gwasanaeth Cymorth Rhyddhau Allgymorth Cymunedol i Ofalwyr


Mae'r Gwasanaeth Cymorth Rhyddhau Allgymorth Cymunedol i Ofalwyr hefyd yn rhan o gontinwwm ehangach o gefnogaeth i ofalwyr di-dâl yn y gymuned, ac mae'n chwarae rhan allweddol i gynorthwyo i dderbyn cleifion i'r ysbyty a'u rhyddhau o'r ysbyty yn amserol, drwy gefnogi a chynnwys y gofalwr di-dâl i sicrhau bod ei anghenion yn cael eu diwallu. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cydweithio ochr yn ochr â'r Gwasanaethau Cymorth Rhyddhau o Ysbyty i Ofalwyr. Mae'r gwasanaeth Cymorth Rhyddhau Allgymorth Cymunedol yn sicrhau, pan fydd gofalwyr di-dâl yn cael eu nodi mewn ysbyty, bod yna gysylltiad yn ôl i gefnogaeth yn y gymuned, i sicrhau y diwellir anghenion cyfannol parhaus sy'n galluogi'r gofalwr di-dâl i barhau â'i rôl ofalu ddi-dâl.




Mae rhan o'r gwaith o fonitro'r gwasanaeth hwn yn cynnwys cofnodi'r canlyniadau a'r effaith ar ofalwyr di-dâl. Yn ystod eu sgwrs 'beth sy'n bwysig i mi', gofynnir i ofalwyr di-dâl raddio eu safbwyntiau a'u profiadau yn erbyn pum maes llesiant allweddol:

- Gwybod a deall pa gymorth sydd ar gael i mi a chael mynediad ato i'm helpu i wella fy llesiant.
- Cael gafael ar y wybodaeth gywir pan fydd ei hangen arnaf, yn y ffordd rydw i ei heisiau;
- Cael y gefnogaeth gywir, cyn gynted â phosibl, er mwyn datblygu i'm llawn botensial.
- Teimlo bod fy llais yn cael ei glywed a bod pobl yn gwrando arnaf i; a
- Teimlo bod gennyf gysylltiadau a'm bod yn cael fy nghefnogi yn fy nghymuned.

Adroddodd y gwasanaeth welliant sylweddol yn llesiant gofalwyr di-dâl ym mhob un o'r pum maes, ac roedd y gwelliant mwyaf yn y categori 'teimlo bod fy llais yn cael ei glywed a bod pobl yn gwrando arnaf i'. Isod mae enghraifft o ganlyniadau a adroddwyd gan ofalwyr yn seiliedig ar ymatebion gan 31 o ofalwyr di-dâl yn ystod Hydref – Rhagfyr 2024. Mae'r golofn las yn nodi'r sgôr llesiant cyfartalog cyn derbyn cymorth, tra bo'r golofn goch yn nodi'r sgôr llesiant cyfartalog ar ôl derbyn cymorth gan y gwasanaeth.




Defnyddir astudiaethau achos hefyd i gael golwg fanylach ar yr heriau a'r materion sy'n wynebu gofalwyr di-dâl, yn ogystal ag i ddangos effaith derbyn cymorth gan Swyddogion Gofalwyr. Darperir enghraifft isod o astudiaeth achos a'r effaith ar y gofalwr di-dâl.

# Hoelio Sylw: Gwasanaeth Cymorth Rhyddhau Allgymorth Cymunedol i Ofalwyr

## Trosolwg o'r sefyllfa

Mae Carys yn gofalu am ei mam sydd â hanes o Byliau o Isgemia Dros Dro (TIA's) ac sydd wedi bod yn yr ysbyty dair gwaith eleni. Roedd Carys hefyd yn gofalu am ei thad sydd â dementia, a'i gŵr a oedd wedi anafu gwaelod ei gefn mewn damwain ac a oedd yn gaeth i'w wely ac angen cymorth am rai wythnosau. Felly roedd Carys yn gofalu am dri o bobl.

**Beth oedd yn llwyddiannus**

Roedd y Swyddog Gofalwr yn gallu trefnu cyfarfodydd gyda gweithiwr cymdeithasol a sawl aelod o staff ysbyty i gael sgwrs 'Beth sy'n bwysig i mi'. Roedd hyn yn caniatáu i Carys leisio ei phryderon am driniaeth ei mam ac edrych ar y materion oedd yn peri pryder cyn i'w mam ddod adref. Roedd hefyd yn rhoi cyfle i Carys siarad am effaith gofalu am ei thad gan fod ei ddementia yn ei wneud yn ddryslyd.

O ganlyniad i'r sgwrs, mae pecyn gofal a thaliadau uniongyrchol wedi'u rhoi ar waith ar gyfer pan fydd ei mam yn cael ei rhyddhau o'r ysbyty. Er bod y rhain yn helpu gyda'r cyfrifoldebau gofalu, roedd y sgwrs hefyd yn canolbwyntio ar lesiant Carys.

Cafodd Carys ei chyfeirio i dderbyn rhywfaint o gwnsela ei hun, felly roedd hi'n gallu sôn rhywfaint am yr hyn oedd yn ei phoeni a nodi sut oedd cadw'n iach yn emosiynol.

**Beth yw ystyr 'da':**

Dywedodd Carys: Ar ôl cysylltu â'r Swyddog Gofalwyr a dreuliodd amser yn sgwrsio â mi, roeddwn i'n teimlo bod gen i rywun i helpu fi a rhywun i fynd aton nhw gydag ymholiadau a chwestiynau. Roedd yn rhyddhad enfawr a'r noson honno fe wnes i gysgu'n well; roedd fel pe bai pwysau mawr wedi codi oddi ar fy ysgwyddau. Pan aeth y Swyddog Gofalwyr gyda fi i'r cyfarfod yn yr ysbyty, roedd cael y gefnogaeth roedd ei hangen arna' i yn gwneud gwahaniaeth. Rwy'n gwybod y galla' i adael neges destun, anfon e-bost neu ffonio, a bydd hi'n cysylltu nôl.

**Canlyniadau i'r gwasanaeth:**

Mae'r astudiaeth achos hon yn ein helpu i ddeall gwerth y gwasanaeth hwn i ofalwyr di-dâl a gallwn ddefnyddio hyn i ddangos y manteision i randdeiliaid allweddol, staff, a gofalwyr di-dâl fel ei gilydd.

## Seibiant Gofalwyr

Mae darparu amryw gyfleoedd i ofalwyr di-dâl gael seibiant ystyrlon o'u rôl ofalu yn flaenoriaeth yng Ngorllewin Cymru, gan gyd-fynd â blaenoriaeth 2 y Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol. Mae hyn yn adeiladu ar waith *Rethinking Respite* Prifysgol Abertawe (ac a gomisiynwyd gan Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru). Mae gweithgarwch seibiannau gofalwyr ledled y rhanbarth yn cael ei ariannu drwy gyllidebau craidd Awdurdodau Lleol ochr yn ochr â chyllid Seibiannau Byr Llywodraeth Cymru a chyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.


Yn 2024-25, mae 3965 o unigolion wedi cael mynediad at gyfle seibiant byr. Dangosodd gwerthusiad gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol fod 97.3% o'r rhai sy'n cael mynediad at seibiannau byr wedi dweud bod y seibiant wedi cynnal neu wella eu hiechyd a'u llesiant emosiynol. Mae hyn yn dangos effaith enfawr seibiannau ar ofalwyr a'u gallu i barhau yn eu rôl ofalu.
Isod ceir rhai enghreifftiau o'r seibiannau byr sy'n cael eu cynnig ar draws y rhanbarth.

## Sir Gaerfyrddin

Er mwyn cynyddu effaith cyllid seibiant gofalwyr, gweithiodd Cyngor Sir Caerfyrddin gyda'r sector gwirfoddol i alluogi gofalwyr i gael mwy o lais a rheolaeth dros sut y defnyddir cyllid gofalwyr, gan gyd-lunio'r cyfleoedd seibiant byr.


Mae'r cynllun Pasbort i Hamdden wedi grymuso 78 o ofalwyr di-dâl i gael mynediad at wasanaethau hamdden CSC, gan arwain at dros 700 o sesiynau ymweld yn 2024/25. Bu rhai gofalwyr di-dâl yn edrych ar weithgareddau newydd, tra bo eraill wedi gwneud newidiadau sylweddol, hirdymor i'w ffordd o fyw. Dywedodd 100% o'r cyfranogwyr fod eu llesiant yn well, eu bod yn teimlo'n llai ynysig, a'u bod yn gwbl hapus â'r cynnig. Caerfyrddin oedd y lleoliad mwyaf poblogaidd, ac yna Llanelli, Rhydaman, Llanymddyfri, a Sanclêr.

Mwynhaodd hanner cant o ofalwyr di-dâl arhosiad dros nos yn Caban ym Mhentywyn, gyda brecwast a swper wedi'u cynnwys. Roedd y gwesty yn cynnig ystafelloedd hygyrch a theuluol, ac roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol.



# Ceredigion

Mae Ceredigion hefyd wedi ariannu sawl cynllun sy'n hygyrch i ofalwyr di-dâl ac sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd seibiant. Mae hyn yn cynnwys mynediad am ddim i ganolfannau llesiant a phyllau nofio gydag opsiwn am 'bydi ymarfer corff' i gefnogi'r rhai oedd yn nerfus. Mae'r cynllun peilot Cerdyn Cydymaith hwn yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â Chanolfannau Llesiant Ceredigion ac fe'i treialwyd dros fisoedd yr haf gyda chyfanswm o 27 o ofalwyr yn cymryd rhan i ddechrau. Mae'r cynnig hwn wedi bod yn fuddiol trwy gynnig amser gwerthfawr i ofalwyr di-dâl, gan wella eu llesiant emosiynol a meithrin mwy o gryfder a hyder wrth gyflawni eu cyfrifoldebau gofalu. Mae'r ffeithlun isod yn tynnu sylw at rai canlyniadau allweddol sy'n deillio o gyflwyno'r fenter hon.




Mae Ceredigion hefyd wedi cefnogi mynediad digidol drwy E-Ddarllenwyr a Kindles, gan alluogi gofalwyr i ddarllen llyfrau nad oeddent efallai wedi cael cyfle i'w mwynhau o'r blaen. Mae'r cynnig hwn yn golygu bod gofalwyr yn gallu darllen rhwng eu dyletswyddau gofalu, yn gwrando ar lyfrau sain, ac yn hyrwyddo hunan-ofal.

Penododd Ceredigion Gysylltydd Seibiannau Gofalwyr ymroddedig sydd wedi bod wrthi'n cysylltu â busnesau lleol yng Ngheredigion. Y nod yw ehangu'r cynnig cerdyn gofalwyr gan sicrhau bod amrywiaeth eang ac ystod o seibiannau cerdyn gofalwyr ar gael yng Ngheredigion.

## Sir Benfro

Mae Cynllun Pasbort i Hamdden Sir Benfro yn parhau i ddarparu cyfleoedd seibiant byr i ofalwyr di-dâl gyda 425 o unigolion yn elwa ar gael cymorth a chefnogaeth gynnar eleni.

Ym mis Rhagfyr 2024 sefydlodd Cyngor Sir Penfro gynllun peilot ar y cyd â sefydliad partner gyda'r nod o ehangu'r cyfleoedd seibiant byr sydd ar gael yn seiliedig ar ymgysylltu â'r sector. Rhoddodd y cydlynydd seibiannau byr gymorth i ofalwyr di-dâl gael mynediad at gyllid, megis trwy *Time Together* neu drwy ficro-grantiau oedd yn rhan o gylch gwaith y prosiect, a helpai ofalwyr di-dâl i gael mynediad at gyfleoedd seibiant byr a oedd yn cynnwys ymweld ag atyniadau lleol. Dywedodd yr holl ofalwyr di-dâl eu bod naill ai wedi cynnal neu wella eu llesiant.

Mae'r prosiect Seibiannau Byr Rhithwir yn cefnogi gofalwyr di-dâl sy'n cael trafferth o bosib cyrraedd cyfleoedd llesiant yn gorfforol, trwy gynnig seibiannau rhithwir gartref gan ddefnyddio clustffonau Realiti Rhithwir. Gan weithio gyda chydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, mae datblygiadau pellach yn digwydd a fydd yn galluogi gofalwyr di-dâl i gael hyfforddiant, fel codi a symud, gan ddefnyddio technoleg realiti rhithwir. Bydd hyn yn sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn darparu gofal a chefnogaeth yn y ffordd fwyaf diogel, a bydd yn eu helpu i gynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

# Hoelio Sylw: Cinio ar ôl Nadolig Gofalwyr Di-dâl – Cyngor Sir Ceredigion

## Trosolwg o'r sefyllfa

Prif nod y cinio ar ôl Nadolig oedd cynnig cyfle haeddiannol i ofalwyr di-dâl ymlacio, cymdeithasu, a chymryd seibiant ystyrlon o'u cyfrifoldebau gofalu. Roeddem hefyd yn cydnabod mai'r unig ffordd gall rhai gofalwyr di-dâl gael seibiant yw os gallant ddod â'r person maent yn gofalu amdano gyda nhw. Gyda hyn mewn golwg, fe wnaethom sicrhau bod gofalwyr yn cael yr opsiwn i fynychu naill ai'n annibynnol neu gyda chydymaith o'u dewis. Daeth y fenter hon â phartneriaid allweddol at ei gilydd: Gofalwyr di-dâl; Cyngor Sir Ceredigion - Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr; Gofalwyr Ceredigion Carers

**Beth oedd yn llwyddiannus**

- Cymerodd cyfanswm o 152 o ofalwyr di-dâl ran mewn dau leoliad, gan ddangos bod galw mawr.
- Cynhaliwyd y digwyddiadau yn ystod cyfnod pan mae gofalwyr di-dâl yn aml yn teimlo rhagor o bwysau a blinder ar ôl y Nadolig.
- Roedd pryd Nadoligaidd ei naws ac amgylchedd croesawgar wedi caniatáu i ofalwyr di-dâl gysylltu ag eraill mewn rolau tebyg, a olygai eu bod yn teimlo'n llai ynysig.
- Roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r dewis o leoliadau, a roddai hyblygrwydd o ran daearyddiaeth ac amserlenni personol.

**Beth yw ystyr 'da':**

- Roedd 100% o'r mynychwyr wedi adrodd yn ôl bod y digwyddiad wedi cael effaith gadarnhaol ar y llesiant.
- Byddai 100% yn argymell y digwyddiadau hyn i ffrind neu gyd-ofalwr.

Dywedodd gofalwyr wrthym fod y digwyddiadau hyn yn gadael iddynt "deimlo fel nhw'u hunain" eto. Siaradodd llawer am yr hwb emosiynol roeddent wedi'i gael o gael pryd o fwyd wedi'i goginio iddynt, ac o fod mewn man lle nad oedd angen iddynt esbonio'u hunain na'u cyfrifoldebau dyddiol. Roedd y seibiant emosiynol hwn o bosibl wedi helpu i gryfhau hunan-barch ac wedi rhoi hoe iddynt yn feddyliol o gyfrifoldebau bod yn ofalwr di-dâl.

**Canlyniadau i'r gwasanaeth:**

Yn ogystal â manteision amlwg gorffwys ac ymgysylltu, mae'r ciniawau wedi helpu i:

- Dyfnhau ymwybyddiaeth gyda busnesau lleol o rôl a gwerth gofalwyr di-dâl.
- Dathlu'r cyfraniad mae gofalwyr yn ei wneud i'w teuluoedd a'u cymunedau.
- Meithrin cymuned trwy brofiad a rennir a chefnogaeth i'r ddwy ochr.

## Gwybod eich Hawliau

Wrth gydnabod y caledi ariannol sylweddol sy'n wynebu gofalwyr di-dâl, lansiodd Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru y rhaglen Manteisio i'r Eithaf ar Incwm yn 2022/23. Nod y model gwasanaeth hwn yw darparu atebion ymateb brys a gwybodaeth a chyngor ataliol, trwy fodel gwasanaeth cyfannol. Mae'r rhaglen hon yn ategu'r trefniadau lleol presennol, megis budd-daliadau llesiant a gwasanaethau gwybodaeth, i ychwanegu haen arall sydd wedi'i theilwra i ofalwyr, gan sicrhau bod anghenion gofalwyr di-dâl yn cael eu diwallu drwy ddarparu gwasanaethau arbenigol.

Yn ei drydedd flwyddyn bellach, mae'r rhaglen hon yn parhau i roi manteision sylweddol i ofalwyr di-dâl, gan eu helpu i fanteisio i'r eithaf ar eu hincwm drwy wybodaeth a chyngor pwrpasol, a'u cynorthwyo i lywio'r amryfal systemau a llwybrau budd-daliadau a hawliau.

Mae'r gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod:

- Gofalwyr di-dâl yn cael mynediad i'r wybodaeth gywir, pan fo'i hangen, yn y modd y maent yn dymuno ac yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella'u llesiant
- Gofalwyr di-dâl yn gallu cael mynediad at amryw wasanaethau, i gefnogi llesiant gofalwyr o bob oedran, yn eu bywyd ochr yn ochr â gofalu

Gofalwyr di-dâl wedi cael y cyfle i gael mynediad at ystod o wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar sy'n helpu i osgoi uwchgyfeirio a sefyllfaoedd o argyfwng. Mae'r gwasanaethau hyn, gan gynnwys cymorth i wneud y mwyaf o incwm, yn cael eu hyrwyddo trwy ystod o ymgyrchoedd gan gynnwys:

- Hyrwyddo a marchnata gweithgareddau Diwrnod Hawliau Gofalwyr ar draws y 3 Sir, gan gynnwys darparu deunyddiau marchnata ar gyfer digwyddiadau.
- Hyrwyddo Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru ledled y Rhanbarth, wyneb yn wyneb ac ar y cyfryngau cymdeithasol. https://www.facebook.com/carerssupportww
- Fideos hyrwyddo wedi'u creu a'u rhannu ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod Wythnos Gofalwyr 2024 gyda ffocws ar wneud y mwyaf o incwm i ofalwyr di-dâl. Mae'r holl fideos i'w gweld ar YouTube ac maent hefyd wedi'u rhoi ar dudalen gartref Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru. https://www.youtube.com/@CarersSupportWW/videos
- Wedi sôn ym Mwrdd Ymgysylltu â Dinasyddion a'r Trydydd Sector Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru am rôl allweddol gofalwyr di-dâl wrth gyd-lunio'r wefan.

Mae proses y system fudd-daliadau yn anhygoel o gymhleth ac anodd i unigolion ei deall, yn enwedig ar adeg pan fo amgylchiadau bywyd yn newid mor gyflym. Mae'n hanfodol gwybod ble i droi am help pan fo argyfwng, ac mae'r help, arweiniad a chefnogaeth a

gynigir i ofalwyr di-dâl yn cael effaith uniongyrchol ar eu hiechyd corfforol yn ogystal ag iechyd meddwl ac emosiynol.

# Hoelio Sylw: Trosolwg o sefyllfa



## 'Materion Ariannol'

Daeth 'Katie' i Materion Ariannol ddiwedd un prynhawn Gwener mewn sefyllfa enbyd. Roedd ganddi bedwar o blant gartref, roedd ei char wedi torri lawr, ac roedd ei chwpwrdd yn wag ac nid oedd ganddi arian nac adnoddau i'w lenwi. Gan fod bywyd cartref ei llysfab wedi chwalu, bu'n rhaid i 'Katie' a'i phartner gymryd gofal amdano ar fyrder heb unrhyw gymorth ariannol ychwanegol. Roedd gan ddau o'r pedwar plentyn anableddau ac roedd 'Katie' yn cymryd amser i ffwrdd o'i swydd fel nyrs iechyd meddwl yn y GIG i gefnogi ei llysfab yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y teulu mewn sefyllfa ddifrifol a gyda'r penwythnos wrth y drws a'r gwasanaethau'n cau, roedd 'Katie' mewn panig ynghylch sut byddai'n bwydo'r aelwyd.

**Beth oedd yn llwyddiannus**
Oherwydd difrifoldeb y sefyllfa a'r risg y byddai'r teulu heb adnoddau dros y penwythnos, bu'n rhaid i'n gwasanaeth weithredu'n gyflym a gofyn i'r banc bwyd lleol am gymorth ar unwaith. Gan na allai 'Katie' ddefnyddio'i char, a chan ei bod yn byw yn y Gymru wledig lle roedd trafnidiaeth leol yn brin, fe aeth ein tîm yr ail filltir. Trefnwyd bod parsel bwyd mawr yn cael ei gasglu erbyn 4.30pm ynghyd â sawl pryd poeth, ac aeth y tîm â nhw draw i'r teulu erbyn 5.30pm. Fe wnaethon nhw hefyd gefnogi'r teulu drwy roi taleb archfarchnad gwerth £200 iddynt, y gellid ei defnyddio ar-lein i gael bwyd wedi'i gludo iddynt yn ystod y cyfnod anodd hwn. Rhoddwyd cymorth hefyd i'r teulu wneud ceisiadau i'r gronfa Tai â Gofal am ddodrefn ystafell wely ar gyfer y plentyn ychwanegol, ynghyd â chyfeirio at wasanaethau eraill a chwblhau gwiriad budd-dal lles llawn.

**Beth yw ystyr 'da':**
Llwyddiant i'r prosiect 'Materion Ariannol' yw gofalwr sy'n teimlo bod rhywun wedi gwrando arni, ei gweld, a'i helpu i gael yr holl gefnogaeth y mae hawl ganddi ei chael i gyflawni ei rôl ofalu orau, ac, yn bwysicaf oll, er ei llesiant cyffredinol fel unigolyn. Mae 'Katie' wedi cael cymorth pwrpasol, person-ganolog nid yn unig i'w helpu yn y cyfamser, ond i roi hyder, gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau iddi yn y tymor hir i wella ei llesiant ariannol, a fydd yn y pen draw yn gwella llesiant ei haelwyd a'i llesiant personol. Mae 'Katie' wedi cael y dulliau i gymryd perchnogaeth o'i sefyllfa ariannol ac mae 'Katie' bellach yn gwybod ble i gael cymorth os bydd hi mewn sefyllfa argyfyngus eto.

**Canlyniadau i'r gwasanaeth:**
Mae 'Katie' wedi derbyn cefnogaeth effeithlon a phroffesiynol mewn cyfnod o argyfwng ac angen difrifol. Heb gamau brys 'Materion Ariannol', gallai'r teulu hwn o chwech fod wedi mynd heb fynd dros y penwythnos. Mae 'Katie' hefyd wedi cael arweiniad ar sut i gynnal ei llesiant ariannol a gwneud y mwyaf o'i hincwm yn y dyfodol. Mae 'Katie' yn teimlo ei bod hi'n cael ei chefnogi a'i chlywed yn ei chymuned. Dywedodd 'Katie':  'Galla' i ddim diolch digon i chi am eich holl gymorth, dwi ddim yn gwybod beth fydden i wedi'i wneud hebddo, ac am wrando arna i i ddechrau. Diolch o galon i chi.'

# Blaenoriaeth Tri

## Cynorthwyo gofalwyr di-dâl i gael mynediad i gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a'u cynnal

Mae Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru wedi cyflawni ystod o gamau gweithredu i nodi a chefnogi ein staff sy'n ofalwyr di-dâl.

### Cyflogwyr i Ofalwyr

Mae partneriaid statudol ledled Gorllewin Cymru yn cymryd rhan yng nghynllun Cyflogwyr i Ofalwyr Gofalwyr Cymru drwy aelodaeth ymbarél a gynhelir gan Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru. Mae grŵp llywio rhanbarthol wedi'i sefydlu ac mae aelodau'n cwrdd bob chwarter i rannu arfer gorau ac adolygu sut y gellir defnyddio'r adnoddau aelodaeth ac annog sefydliadau bach a chanolig eraill i elwa ar y cynllun.

### Hoelio Sylw: Cymorth i ofalwyr yn y gweithle ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Gall gweithwyr y Bwrdd Iechyd gofnodi rôl atodol yn eu Cofnod Staff Electronig i hunan-adnabod eu rôl fel gofalwr di-dâl. Ar 31 Mawrth 2025, roedd 274 o staff wedi cofrestru eu rôl atodol fel "Gofalwr sy'n Gweithio", sef cynnydd o 113 neu 70.19% ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda hefyd yn trefnu grŵp cymorth cymheiriaid i ofalwyr ar gyfer staff y Bwrdd Iechyd sydd â rôl ofalu. Mae hyn yn parhau i gael ei gynnal yn fisol ar MS Teams ac yn ystod y flwyddyn aeth 78 o staff Bwrdd Iechyd i'r sesiynau grŵp cymorth (mynychodd rhai fwy nag un sesiwn). Roedd rhai o'r sesiynau hyn yn cynnwys cyflwyniadau gan siaradwyr gwadd ac mae'r pynciau'n cael eu dewis i ymateb i feysydd o ddiddordeb a fynegwyd gan aelodau, yn ogystal â chyfle i drefnu cyfranogiad at ddatblygu polisi neu strategaeth. Mae sianel Teams hefyd wedi'i chreu i aelodau rannu gwybodaeth a gofyn cwestiynau, ac mae recordiadau o gyfarfodydd blaenorol gyda siaradwyr gwadd hefyd ar gael yma. Ym mis Tachwedd 2024 cynhaliwyd gweithdy gan y Pennaeth Therapïau Seicolegol ar anghenion cymorth iechyd meddwl staff sy'n ofalwyr. Ymunodd 22 aelod o'r rhwydwaith â'r sesiwn hon lle gofynnwyd iddynt am y gwasanaethau/adnoddau a oedd yn cefnogi iechyd meddwl. Lle roedd y rhain ar gael, beth oedd y rhwystrau o ran cael mynediad atynt a pha fathau eraill o gymorth fyddai'n ddefnyddiol.




Mae deall profiadau gofalwyr di-dâl mewn cyflogaeth yn helpu i ddeall pa gymorth y gellir ei ddarparu, ac mae'r astudiaeth achos isod yn cyfleu profiad un o weithwyr y Bwrdd Iechyd.

Ymunodd Ruth â'r Bwrdd Iechyd ym mis Awst 2000 ac roedd hi'n gofalu am ei mam 70 oed. Dros y blynyddoedd roedd ei symudedd a'i golwg wedi dirywio, er ei bod yn wraig annibynnol. Yn 2020 cafodd ei mam fwy nag un strôc, ac fe waethygodd ei symudedd ac roedd angen cymorth arni ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd. Camodd Ruth i mewn i baratoi prydau bwyd a helpu â gofal personol. Roedd Ruth yn mwynhau ei swydd ac roedd ganddi ymrwymiadau ariannol o hyd, ond weithiau dim ond tair awr o gwsg roedd hi'n gael. Edrychodd Ruth ar ei hawliau fel gofalwr di-dâl a daeth ar draws y grŵp Cefnogi Cymheiriaid Gofalwyr. Roedd y grŵp yn gallu rhannu eu profiadau, a oedd yn golygu eu bod yn teimlo'n llai ynysig, ac roedd yn gymorth i ddeall mathau eraill o gymorth fel pasbort y gofalwr ac Atwrneiaeth. Ym mis Rhagfyr 2024 bu farw mam Ruth ac er i'r blynyddoedd diwethaf fod yn anodd, roedd Ruth yn hynod ddiolchgar i'w rheolwr amyneddgar, i'r grŵp cymorth cymheiriaid, ac i'r sefydliad am weithredu'r gwerthoedd a'r credoau a wnaeth ganiatáu iddi gael ei chefnogi yn ei sefyllfa ac aros yn y gwaith.

# Blaenoriaeth Pedwar

## Cefnogi Gofalwyr i gael eu cynnwys yn ddigidol

Mae gwefan Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru yn ei thrydedd flwyddyn ac mae grŵp llywio yn cynnal adolygiad rheolaidd o'r cynnwys i sicrhau bod y wefan siop un stop ar gyfer gofalwyr di-dâl yn gyfredol ac yn parhau i gael ei hyrwyddo a'i defnyddio gan ofalwyr di-dâl o bob oedran.

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, cafwyd cyfanswm o 187,687 o ymweliadau â gwefan AGGC, sy'n gynnydd o 294% ers yr ymweliadau a gofnodwyd yn 2023-24. Mae hyn yn adlewyrchu lefel yr hyrwyddo parhaus ac yn dangos bod y wefan yn dod yn fwy sefydledig ac yn cael ei chydnabod ledled y rhanbarth fel ffynhonnell wybodaeth.

Cynhaliwyd arolwg hefyd o effeithiolrwydd y wefan a chymerodd 321 o bobl ran. Roedd 100% o'r bobl a holwyd yn fodlon â'r wybodaeth a ddarparwyd ac roedd 100% yn graddio eu profiad yn dda neu'n ardderchog ac roedd 100% wedi dod o hyd i'r hyn roeddent yn chwilio amdano ar y wefan

Ysgrifennodd un gofalwr di-dâl:

> "Mae cael gwybodaeth mewn un lle, ar-lein, yn hanfodol i lawer o ofalwyr. Does gyda ni ddim amser o hyd i wneud galwadau ffôn neu fynychu cyfarfod yn ystod oriau swyddfa, felly mae gallu dod o hyd i wybodaeth ar-lein yng nghanol noson ddi-gwsg neu tra'n sgrolio drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn amhrisiadwy. Rwy' hefyd yn gwerthfawrogi sut mae Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru yn diweddaru digwyddiadau'n gyson, a dyw llythyr newyddion sy'n cael ei argraffu ddim yn gallu gwneud hyn gan fod pethau newydd yn codi drwy'r amser."

Mae'r ddolen i'r platfform i'w chael yma:
Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru | Carers Support West Wales.

Darparodd Tîm Cymunedol Sir Benfro gyllid ar gyfer datblygu gwaith Realiti Rhithwir ymhellach, gan adeiladu ar y gwaith seibiannau byr a ddisgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad. Mae hyn yn cynnwys Ap newydd i ofalwyr di-dâl gael mynediad at hyfforddiant cymorth mewn codi a chario a bydd yn cael ei lansio ar 30 Ebrill 2025. Mae hwn yn ddatblygiad mawr o ran cefnogi gofalwyr di-dâl i godi a chefnogi'r person maent yn gofalu amdano'n ddiogel. Mae gan Geredigion a Sir Benfro gynlluniau benthyg llechen llwyddiannus y gall gofalwyr di-dâl gael mynediad iddynt, sy'n cefnogi eu gallu digidol.

# Casgliad

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi rhoi trosolwg o'r ystod eang o weithgareddau sydd wedi bod yn mynd rhagddynt yng Ngorllewin Cymru i wella canlyniadau i ofalwyr di-dâl yn ystod 2024-25. Er bod ffocws yr adroddiad wedi bod ar arwain y gwaith drwy Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru a phartneriaid statudol, cydnabyddir bod llawer o sefydliadau a grwpiau eraill yng Ngorllewin Cymru sydd hefyd yn darparu cymorth a gwasanaethau gwerthfawr i ofalwyr di-dâl.

Mae llawer iawn o waith ymgysylltu a chyd-gynhyrchu wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys gofalwyr di-dâl ar lefel ranbarthol a lleol. Bydd y gwaith hwn yn arwain at lansio Strategaeth newydd i Ofalwyr Di-dâl Gorllewin Cymru 2025-2030 a fydd yn cael ei chyhoeddi yn haf 2025. Mae'r strategaeth ar ei newydd wedd nid yn unig yn barhad o waith ac ymrwymiad y strategaeth flaenorol, ond hefyd yn parhau i dynnu sylw at bwysigrwydd gweld gofalwyr di-dâl, y gwaith maent yn ei wneud, a rhoi pwys ar eu rôl bwysig yn ein cymunedau.

Rydym yn wynebu heriau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a chyda phoblogaeth sy'n heneiddio, argyfwng costau byw, a'r angen i ddarparu gwasanaethau mewn modd gwahanol wrth i ni ymateb i bwysau parhaus ar wasanaethau statudol. Wrth fynd i mewn i flwyddyn olaf Strategaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru, mae Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i ddarparu cymorth i ofalwyr di-dâl yn ein cymunedau mewn ffyrdd newydd ac arloesol, ac i sicrhau bod anghenion gofalwyr di-dâl yn cael eu hystyried ar bob cam o ofalu.